**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/1239/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Ebrill 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mawrth. Mae eich llythyr yn codi sawl cwestiwn ynghylch darpariaeth gwerslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer y cymwysterau cyffredinol diwygiedig.

Hoffwn wrth gychwyn nodi fy mod yn parhau i fod yn benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i'n hymarferwyr a'n dysgwyr a hynny ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Fel rheoleiddiwr, cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw penderfynu p'un a oes nifer digonol o adnoddau ar gael i gefnogi cyflwyno cymhwyster. Er hynny, nid oes rhaid i'r adnoddau hynny fod ar ffurf arbennig. Pan fo adnoddau asesu enghreifftiol, canllawiau athrawon ac adnoddau digidol ychwanegol ar gael, rwyf ar ddeall y gall Cymwysterau Cymru ddod i'r casgliad nad yw gwerslyfr yn hanfodol ar gyfer cymhwyster newydd.

Nid oes raid i CBAC sicrhau bod gwerslyfrau ac adnoddau dysgu ar gael i gefnogi dysgu ac addysgu eu cymwysterau. Mae gwerslyfrau yn cael eu cynhyrchu gan gyhoeddwyr masnachol, sydd yn gwbl ar wahân i'r cyrff dyfarnu. Nid yw CBAC yn gyhoeddwr gwerslyfrau. Er hynny, mae cyhoeddwyr yn awyddus i CBAC ardystio eu gwerslyfrau . Yn anffodus mae'r farchnad ar gyfer gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig ac felly yn aml teimlai cyhoeddwyr nad yw'r farchnad yn ddigon hyfyw iddynt gynhyrchu gwerslyfrau Cymraeg yn fasnachol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i CBAC er mwyn sicrhau bod gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg ar gael.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mewn achosion lle nad oedd gwerslyfrau pynciau wedi cael eu creu yn y Gymraeg na’r Saesneg, mae CBAC wedi cynhyrchu ystod o adnoddau digidol dwyieithog sydd ar gael yn rhad ac am ddim yn adran  adnoddau gwefan CBAC. Mae Llywodraeth Cymru  hefyd wedi comisiynu adnoddau Cymraeg ychwanegol. Mae'r rhain i'w cael ar wefan Hwb yn rhad ac am ddim.  Er nad yw gwerslyfrau yn hanfodol, rwyf yn gwerthfawrogi bod dysgwyr ac athrawon yn eu gweld yn adnodd gwerthfawr. Rwyf hefyd yn deall y pryderon  pan nad ydynt ar gael i bob pwnc, neu os oes oedi wedi bod yn y broses o'u cynhyrchu.

Mae clywed am oedi o ran cynhyrchu rhai gwerslyfrau, yn enwedig fersiynau Cymraeg o'r gwerslyfrau, yn peri gofid mawr i mi.  Gan fod y gwerslyfrau yn cael eu cynhyrchu'n fasnachol gan gyhoeddwyr addysgol arbenigol, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros yr amserlenni  cyhoeddi. Serch hynny, darparwyd cyllid ychwanegol i CBAC er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu prosesau mewnol er mwyn gwella amserlenni  cyhoeddi rhwng fersiynau  Cymraeg a Saesneg o werslyfrau. Enghraifft o’r datblygiad hyn oedd bod llyfr TGAU Daearyddiaeth  wedi ei gyhoeddi o fewn 4 mis i ddyddiad cyhoeddi yr un Saesneg. Er fod gwelliannau wedi eu gwneud rwyf am eich sicrhau fy mod yn awyddus i weld fod pob ymdrech yn cael ei roi i wella’r sefyllfa ymhellach.  Dyma pam rwyf wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar y sefyllfa gan  roi cyngor i mi ar sut y gallwn ddatblygu seilwaith newydd i gynhyrchu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm newydd a chymwysterau yng Nghymru.

Rwy'n deall yn iawn bod pryderon o’r effaith bosibl ar ddysgwyr pan nad yw gwerslyfrau ar gael mewn pryd.  Fel rheoleiddiwr, cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ac nad yw dysgwyr o dan unrhyw anfantais, nac ychwaith yn cael mantais s annheg, oherwydd eu bod y garfan gyntaf i sefyll arholiadau ar gyfer y cymhwyster newydd.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education